`Y Gwir yn Erbyn y Byd!`

# Seren Tan Gwmwl

Rhif 5
Gwanwyn 1998

ffansin hanes annibynnol !

50c

# Rydyn ni`n byw mewn gwlad rydd ..?

Pwll Glo Orgreave, Mehefin 18, 1984.



## Paranoid? Pwy sy`n paranoid?
## .....NI SY`N PARANOID !!

# "They who put out the people`s eyes ..."

Y BWRDD GOLYGYDDOL



DYMA`R NEGES....

Mae`r rhifyn hwn o Seren Tan Gwmwl yn son llawer am fywyd cyhoeddus yng Nghymru. Wedi pymtheg mlynedd o ddarlledu gan S4C, a dros ugain o fodolaeth Radio Cymru mae diffygion amlwg i`w gweld. Beth yw rhain?

Diffyg democratiaeth - ble mae pypedau yn cael eu penodi gan y system ac yn rheoli heb fod yn atebol i neb, na phoeni am beth mae pobl eisiau. **Bellach dyw`r gelyn ddim wrth y drws, mae`n eistedd yn gyfforddus yn twymo`i draed o flaen y tân**. Wrth ddarlledu sothach di-sylwedd mae arweinwyr y cyfryngau yng Nghymru yn dweud wrthon ni, y gwylwyr a`r gwrandawyr, mai dyma beth ry`n ni eisiau. Wedi cyflwyno rhaglenni arwynebol am gymaint o amser, mae fel petai`r *Grand Wizards* cyfryngol yn beio`r gynulleidfa am ostwng i`w safon nhw gan ddatgan mai dyma`r safon o ddarlledu mae pobl yn dymuno gweld. Yng ngeiriau John Milton... ***"They who put out the people`s eyes reproach them of their blindness"***....OND nid y bobl sydd wedi cael eu dallu yn yr achos hwn.

A ble mae`r drafodaeth gyhoeddus? Ble mae`r mudiad radical sydd i fod i dynnu ein sylw at y mater a chodi`n hymwybyddiaeth o`r pethau hyn? Maen nhw wrthi`n ddyfal yn cynhyrchu fideos i hyrwyddo`r hyn sy`n weddill ohonyn nhw`u hunain. Mae Cymdeithas yr Iaith, fel Orpheus gynt, yn edrych am yn ôl, ac wrth wneud hyn, efallai yn ein condemnio **ni** i dragwyddoldeb uffern y sefyllfa bresennol.

Mae`r clefyd yn ehangu i bob adran o fywyd Cymru. Sut all gweddill y wasg, fel Golwg sy`n derbyn grantiau di-ri ac arian hysbysebu wrth S4C / BBC, gynnig llais annibynol?

Nid yr iaith yw`r unig beth pwysig: mae cynnwys a syniadaeth hefyd yn bwysig. Mae`n amlwg nad oes gan gyfryngau Cymru ddim byd i ddweud wrthon ni rhagor oherwydd maen nhw`n copio syniadau o Loegr yn hytrach na defnyddio gwreiddioldeb pobl Cymru. Pan fod person yn derbyn swydd gyhoeddus mae ganddo ddau ddewis: dilyn ei drywydd ei hun, neu ddilyn syniadau a gwerthoedd y bobl wnaeth roi`r swydd iddo. Un llinyn mesur o ba mor iach yw diwylliant cenedl yw edrych ar y diwylliant boblogaidd mae`n cynhyrchu.

Ry`n ni`n haeddu gwell.

Ond ydy pethau wedi mynd yn rhy bell? Ydy hi`n rhy hwyr ar gyfryngau Cymru. *"Mae`r perthnasau wedi cael gwybod, ac mae`r peiriant cynnal bywyd ar fin gael ei ddiffodd"*. NOS DA, SGYMRU.

Golygyddion: Owen Llywelyn - 7 Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin SA31 3HG
Daniel Davies - Y Fflat, Clwb Dewi Sant, 35 Eastgate, Aberystwyth

# `CATCH THE PIGEON!` .....

Mae`r CIA yn enwog am greu *cock ups* o bob math. Rhain yw`r bobl wnaeth drefnu ymosodiad Bae`r Moch arYnys Cuba. Rhain yw`r bobl wnaeth geisio gwenwyno`r Cadfridog Abdul Karim Kassem, arweinydd milwrol Iraq gyda macyn gwenwynig. Nhw hefyd oedd yn gyfrifol am geisio cael gwared ar Lumumba, arweinydd y Congo drwy greu *virus* i roi yn ei bast dannedd. Ond efallai mai methiant mwyaf y CIA oedd eu methiant i lofruddio Dr Fidel Castro, arweinydd Cuba.




Cafwyd ymdrechion i ddinistrio economi Cuba. Glaniodd tim o ysbiwyr ar yr ynys gyda`r bwriad o greu *sabotage* economaidd, casglu gwybodaeth, a lledaenu propaganda gwrth-Castro. Ar un achlysur torrodd gwyddonydd oedd yn gweithio i`r CIA i mewn i warws oedd yn dal siwgr o Cuba gyda`r bwriad o roi gwenwyn yn y siwgr fyddai`n achosi iddo golli ei flas!

Pan ddaeth JFK yn Arlywydd Unol Daleithiau`r America roedd Castro eisioes wedi sefydlu ei hun yn arweinydd Cuba. Ond roedd Kennedy, arlywydd y wlad `ddemocrataidd` fwyaf yn y byd yn cynllwynio i ladd Dr Fidel Castro. Rhoddodd Kennedy y gwaith o wneud hyn yn nwylo Richard Bissell o`r CIA a daeth lladd Fidel yn obsesiwn ganddo ef a`i frawd Robert Kennedy. Sefydlodd y Ty Gwyn *Task Force W* er mwyn cael gwared ar arweinydd Chwyldro gogoneddus Cuba. Mae gweithgareddau *Task Force W*, oedd yn gweithredu dan y teitl *Operation Mongoose* yn swnio`n debycach i rai Dastardly & Mutley na rhai heddlu cudd Unol Daleithiau`r America. Dyma rai o`r uchafbwyntiau.....

Cafwyd sawl ymdrech i wenwyno Dr. Fidel. Un enghraifft oedd ceisio rhoi tabledi gwenwynig ym mwyd Castro. Enghraifft arall, mwy swreal, oedd rhoi pysgod gwenwynig o`r Môr Tawel yn y man lle roedd Castro`n hoffi mynd ar dripiau *Scuba Diving*. Yn ffodus i bobl Cuba, ac yn anffodus i`r CIA, mae Castro yn arbenigwr ar fywyd y môr, ac roedd yn gwybod nad oedd yn bosib i bysgod fel hyn fyw yn naturiol ym Môr y Caribi!







Cyflogodd y CIA y *mafia* i geisio cael gwared ar Dr. Fidel. Rhoddwyd siec o $50,000 i aelodau`r *mafia* am eu gwaith. Methodd rhain ddod yn ddigon agos at Castro i weithredu.

Mae`r CIA, braich derfysgol Arlywydd Unol Daleithiau`r America yn dal i weithredu fel hyn mewn gwledydd `anghyfeillgar`, ac yn dal i geisio cael gwared ar arweinwyr nad ydyn nhw`n hoffi. OND..... mae Dr. Fidel Castro yn dal yn arweinydd Cuba!


# POL POT - TIPYN O GHMER!






Mae Pol Pot - neu Saloth Sar i ddefnyddio`i enw iawn yn 70 mlwydd oed eleni. Hwn oedd y dyn oedd yn gyfrifol am orchymyn i gannoedd o filoedd o bobl ddiniwed i gael eu lladd. Ef oedd sefydlydd y Khmer Rouge, ac roedd yn arweinydd Cambodia rhwng 1975 ac 1979, cyfnod pan welwyd miloedd os nad miliynau yn cael eu llofruddio ar orchymyn Pol Pot. Mae wedi cael ei ddal erbyn hyn, ac yn agosau at ei farwolaeth - boed hwnnw`n un naturiol neu`n ddienyddiad.

Ond dyw`r dyn hwn, llofrudd y *Killing Fields* ddim yn teimlo ei fod wedi gwneud unrhyw beth o`i le. Fel y Natsiaid yn Nuremburg mae Pol Pot wedi penderfynu nad ef oedd yn gyfrifol, ac mae wedi llwyddo i dwyllo`i hunan mai ei ddarlun ef o`r gorffennol sy`n iawn. Mae`n cael ei gadw yn y ddalfa yn y jyngl yn Cambodia, ac yn glynnu at un stori .... ***`Fe ddes i i gario `mlaen â`r frwydr, nid i ladd pobl.... hyd yn oed nawr rwy`n credu hyn. Ydw i`n edrych fel person milain?: mae fy nghydwybod yn glir`.***




Cafodd Saloth Sar (Pol Pot) ei eni ar Fai 25, 1928 i deulu gweddol gefnog o bobl oedd yn gweithio ar y tir. Roedd yn byw mewn pentref i`r Gogledd o Phnom Phen ac yn wythfed o naw plentyn. Pan yn ifanc iawn cafodd ei anfon i ffwrdd i gael ei addysgu a chafodd addysg gan fynachod Bwdhaidd oedd yn ei ddysgu bod rhyddid mynegiant yn beth gwael, cyn symud ymlaen yn wyth oed i Ysgol Gatholig.

Yn 1949 rhoddwyd peth annibynniaeth i Cambodia gan Ffrainc, ac yn yr un flwyddyn aeth Pol Pot i Baris i astudio. Yn ystod ei wyliau Haf yn 1950 aeth i weithio i Yugoslafia, ble gafodd ei ysbrydoli gan gynlluniau`r Undeb Sofietaidd i greu `llwyddiant` diwydiannol yn y wlad honno. Rhwng 1949 ac 1953 y datblygodd Pol Pot ei syniadau: **roedd am weld Cambodia yn cael gwared ar ddylanwadau gorllewinol yn llwyr, gan greu gwlad fyddai`n cyrraedd y pwynt ble nad oedd dylanwad y gorllewin arni o gwbl - *degree zero*.** Yn 1950 hefyd darllenodd lyfr Stalin oedd yn cyflwyno `hanes` yr Undeb Sofietaidd, ac ymunodd â Phlaid Gomiwnyddol Ffrainc.



Pan ddychwelodd i Cambodia yn 1953 aeth ati i drefnu y Khmer Rouge, gan weithio gyda mudiadau tanddaearol fel fel Plaid Gomiwnyddol Cambodia. Yn y cyfnod hwn mabwysiadodd nifer o enwau gwahanol, a gweithiodd fel athro. Ond roedd datblygiadau yn ei wlad na fedrai Pol Pot wneud dim amdanyn nhw: roedd Comiwnyddion yn cael eu harestio, Cambodia yn ennill mwy o annibynniaeth wrth Ffrainc, a gwrthdaro yn dechrau yn Vietnam - gwlad oedd yn ffinio â Cambodia. Ffodd Pol Pot i`r jyngl yn 1962 - yn y cyfnod wedi hyn collodd gysylltiad gyda beth oedd yn digwydd yn y byd. Bu ar ymweliad â China yn 1966 - blwyddyn y **Chwyldro Diwylliannol** pan oedd myfyrwyr ifanc yn ymosod ar eu hathrawon, a llyfr bach coch Mao yn cael ei ddefnyddio i gyfiawnhau pob math o weithredoedd - o ymosod ar ddiwylliant China, i guro a lladd pobl hyn yn gyhoeddus. **Roedd Pol Pot yn llawn edmygedd**.

Erbyn 1975 roedd y Khmer Rouge, oedd yn derbyn cefnogaeth sylweddol wrth China, yn rheoli rhannau o Cambodia, ac erbyn 1976 roedd Pol Pot yn llywodraethu. Rhwng 1976 gwelwyd polisiau erchyll a chreulon yn cael eu gweithredu gan y Khmer Rouge: yn unol â`u polisi i gyrraedd *degree zero* aed ati i orfodi dros ddwy filiwn o bobl i adael y dinasoedd a mynd i fyw yn y wlad. Llofruddiwyd aelodau o deulu brenhinol Sihanouk, a bu farw miloedd, os nad miliynau o bobl gyffredin Cambodia.



Cyflwynodd GYNLLUN PEDAIR MLYNEDD: cafwyd wared ar arian a masnach, a doedd dim hawl gan bobl i gael eiddo preifat. Yn y cyfnod hwn agorodd Pol Pot ganolfan holi - S21: aeth dros dwy fil o bobl i fewn i`r ganolfan hon, ond ychydig ddaeth allan yn fyw. Cynhaliwyd *purges* o aelodau`r Blaid Gomiwnyddol hefyd: roedd yn amlwg wedi dysgu wrth Stalin. Rhwng 1975 ac 1979 defnyddiwyd y term *gelynion y bobl* i ddisgrifio pobl oedd yn gwisgo dillad gorllewinol, yn siarad Ffrangeg, yn dangos `tueddiadau dosbarth canol`, neu`n gwrthwynebu syniadau`r Khmer Rouge.

Daeth teyrnasiad Pol Pot i ben yn 1979 pan ffodd mewn hofrennydd i Thailand. Roedd Cambodia wedi bod yn brwydro yn erbyn llywodraeth Gomiwnyddol Vietnam ers Rhagfyr 1978, ac roedd yn colli. Diflannodd Pol Pot dros dro, cyn dychwelyd i`r jyngl yn Cambodia i arwain rhyfel *guerilla* yn erbyn llywodraeth ei wlad. Yn 1997 cafodd ei weld am y tro cyntaf ers iddo ddiflannu yn 1979. Mae`n dal i daeru ei fod yn ddi-euog, ac yn disgrifio`i hun fel ***`y person wnaeth geisio achub y wlad rhag dominyddiaeth Vietnam`***. Mae`n dal i wrthod hefyd ei fod yn gyfrifol am y lladd, ac er bod darluniau o resi o benglogau yn gyfarwydd i ni i gyd, mae`n gwadu bod miliynau wedi marw: ***`Dydw i ddim yn cytuno gyda ffigwr America bod miliynau wedi marw: cannoedd o filoedd efallai, ond nid miliynau`***.

# LORD HUW HUW



**Rhaid i Seren Tan Gwmwl rybuddio Cymru heddiw am ddatblygiad sinistr yn y cyfryngau Cymraeg sydd wedi bod mor bur a didwyll hyd yn hyn. Mae rhaglenni radio a theledu yn cael eu infiltrato gan bropaganda gwlad estron. Mae`r cynllun dan reolaeth y bradwr LORD HUW HUW sydd â sianel ei hun erbyn hyn. Gwyliwch rhag hyn .....**

"ENGLAND CALLING! ENGLAND CALLING! Fi sydd yma. LORD HUW HUW. Does dim gobaith i`r Iaith Gymraeg. Ymunwch â mi. Mae`r Cymry yn colli brwydrau bob dydd; colledion enfawr ar Ffrynt y Gorllewin. Ry`n ni wedi smasho`r beirdd yn barod ac yn cau mewn ar Gylch yr Iaith. Rwyf eisioes wedi concro stiwdios Barcud ac mae`r Eryr wedi glanio yn ei lle. Ry`n ni`n barod i lifo dros Glawdd Offa unrhyw ddydd. Pan fydda i, LORD HUW HUW`a fy ffrind annwyl Dr. Tim Goebbels yn eich rheoli fe gewch y danteithion hyn....

Gan bod Eden mor crap rwy`n cynnig band newydd i Gymru - y SAIS GIRLS, gyda fy ffrindiau annwyl o`r BBC...



DAFYDD DU - **POSH SAIS** - yr unig un sy`n medru fforddio *cocaine.*

GERAINT LLOYD - **SCARY SAIS** - mae`n dychryn plant mewn pantomeims

JONESEY - **DIM-WIT SAIS** - dim-wit o ran enw, Sais o ran natur.

BBC - **BABY SAIS** .... yw`r BBC.

BECS - **SPOTTY SAIS** -

## Y SAIS GIRLS!



Aled Glynne

Swastikas meddyliol:

## SAIS UP YOUR LIFE!

## TELEBYTIS



**TELEBYTIS** - gyda fy ffrindiau sy`n filwyr ffyddlon dros yr achos yn dangos eu talentau a`u Swastikas meddyliol:

Aled Glynne fydd.... Stinky Pinky
Euryn Ogwen fydd.... Ga Ga
Huw Pritchard fydd....Llo, ..... ac fel arfer mi fydd
Geraint Talfan yn Tipsy.

Bydd y bobl yma`n berffaith ar gyfer y rhan oherwydd eu bod wedi arfer â darlledu nonsens annealladwy. `Eh-Oh!`

## Y REICH AR DAITH



Mae`r fuddugoliaeth ar gyrraedd, a byddaf yn cynnal *Road Show* o gwmpas Cymru mewn *Battle Bus* arbennig, y **Reich ar Daith**, ble gallwch ennill Swas - sticers ceir, a chopi o fy sengl newydd DWI ISHO BOD YN SAIS (AC RWY BRON BOD YNA) fydd yn rhif un am fil o flynyddoedd.

Dyma ddiwedd y darllediad.
ENGLAND EXPECTS!

## YMDDIHEURIAD I GYMDEITHAS YR IAITH GYMRAEG.

Mae **Seren Tan Gwmwl** am gyflwyno ymddiheuriad cwbl diamod a diffuant i Gymdeithas yr Iaith Gymraeg ar ôl lladd arnyn nhw yn y rhifyn diwethaf. Ry`n ni`n dweud o hyn ymlaen bod Cymdeithas yr Iaith yn *brilliant*, achos ry`n ni wedi gweld y fideo sy`n cynnwys llawer o bobl enwog sy`n dweud bod Cymdeithas yr Iaith yn *brilliant*. Wedi`r cyfan, allwch chi ddim dadlau gyda meddyliau gwleidyddol mawr fel Huw Ceredig, Mark Aizelwood, Mike Peters, Ray Gravell, teulu Ffred Ffransis i gyd, ac Einir Sion. Ond ry`n ni nawr yn gweld rhinweddau eraill i`r mudiad ffantastig hwn.

Er mwyn edrych ar ôl ei haelodau, a`u hatal rhag gorfod sefyll yn y glaw yn ymgyrchu tra bod neb yn gwrando arnyn nhw mae`r Gymdeithas wedi lawnsio **Virtual Reality Cymdeithas yr Iaith Gymraeg**. Nawr gallwch eistedd adref yn eich cadair freichiau o flaen tân mawr cynnes, gwisgo helmed virtual reality ar eich pen, a dychmygu eich bod yn sefyll yn y glaw yn ymgyrchu tra bod neb yn gwrando arnoch chi. **Mae`r cynllun hwn yn mynd ers 1990**.

Mae`r mudiad hefyd wedi lawnsio `ymgyrch i ddod o hyd i ymgyrch newydd`. Byddan nhw teithio trwy Gymru, yn pwyntio bys at y llywodraeth, ac yn gweiddi sloganau fel **`Ble mae`r Ymgyrch!`**, **`Ymgyrch Nawr!`**, a **`Deddf Ymgyrch Newydd i Gymdeithas yr Iaith!`**. Mae ganddyn nhw bedwar swyddog llawn amser ar hyn o bryd yn gweithio ar ffeindio ymgyrch i Gymdeithas yr Iaith. Pan siaradon ni â Gareth Kiff dywedodd... *`Mae Cymru wastad wedi ei chael hi`n wael. Ry`n ni`n mynnu bod y llywodraeth yn rhoi ymgyrch newydd i ni nawr`*.

Mae`r *brains* o fewn Cymdeithas yr Iaith wedi mynd ati i geisio dyfeisio peiriant amser fydd yn mynd â nhw yn ôl i Oes Aur y Gymdeithas yn y 1960`au, y 1970`au a`r 1980`au. I`r diben hwn lawnsiwyd sengl newydd yr wythnos hon - CERDDWN YN OL - i gyd fynd gyda`r fideo hunan ganmolus gwych, EWCH GYDA NHW!


## PREIFATEIDDIOPREIFATEIDDIOPREIFATEIDDIOPREIFATEIDDIOPREIFATEIDDIOPREIFATEIDDIOPREIFATEIDDIOPREIFATEIDDIOPREIFATEIDDIOPREIFA

Cynllun olaf Llywodraeth Major cyn gadael coridorau grym oedd un i breifateiddio pleidiau gwleidyddol. Yn Ebrill 1997 rhoddwyd pob plaid wleidyddol allan ar dender: Y Blaid Lafur wnaeth ennill y tender am y Blaid Geidwadol ac enillwyd y tender am y Blaid Geidwadol gan gangen Tooting Beck o`r WI: yn anffodus ni chafwyd ceisiadau am dender Blaid Cymru.



Dywedodd arweinydd y Blaid Geidwadol, Tony Blair *`Rwyf wrth fy modd i gael cadeirio y Blaid Lafur PLC`*. Aeth ymlaen i ddweud na fyddai preifateiddio`n dod i ben yn fanna, a bod ganddo raglen lawn o gynlluniau preifateiddio mentrus a diddorol. Wedi ymosod ar famau sengl a phensiynwyr, mae Blair yn bwriadu mynd ati nawr i godi mwy o arian i Brydain dlawd, ac fel gyda phob cynllun o`r fath mae`n bwriadu defnyddio Cymru ar gyfer arbrofi.

Y cynllun cyntaf ar raglen preifateiddio Blair fydd preifateiddio`r Arglwydd Dafydd Elis Thomas, Cadeirydd Bwrdd yr Iaith, Sgrin Cymru, Gerddi Botanyddol Bodedern, siop `Spar` Llangollen, Canolfan Hamdden Drefach-Felindre, Cymdeithas Bwyta Tip Tops Cymru cyf., Acne Cymru, a 3,857 o fudiadau a quangos eraill. Bydd **DET plc**. yn agor ar y farchnad stoc yfory ar 35 a hanner ceiniog y siar. Eisioes mae`r miliwnydd Mohammed Al Fayed wedi dangos diddordeb yn y cwmni, ac yn bwriadu ei brynu a chyflwyno toriadau. Dywedodd Sheikh Al Fayed .... *`Rwy`n bwriad prynu`r Arglwydd a chael gwared ar y rhannau di-angen. Bydd dim angen darnau nad yw`n defnyddio, fel y coesau, y breichiau, ac yn enwedig y pen. Yr unig ddarn defnyddiol yw ei ben-ôl: mae`n defnyddio hwn i eistedd arno, ac yn siarad drwyddo`n aml`*.



Prys Edwards - dechrau drilio ar 17 Ebrill 1998

Ond fydd preifateiddio ddim yn dod i ben yn fanna. Mae`n fwriad gan Blair hefyd i breifateiddio`r oily miliwnydd Prys Edwards. Dywedodd Blair... *`Byddwn yn dechrau drilio ar 17 Ebrill 1998 ar ochr chwith ei ben, ac ry`n ni`n gobeithio dod o hyd i rywbeth erbyn canol Awst 2008`*.

Ychwanegodd y Prif Weinidog: *`Unwaith fydda i`n penderfynu bod y cynllun hwn yn llwyddiant byddaf yn mynd ati i breifateiddio awyr iach. Mae pobl wedi cael hwn am ddim ers canrifoedd, a dyw hynny ddim yn iawn. O`r Hydref ymlaen bydd pawb yn gwisgo meter ar eu trwyn, a phan fyddan nhw angen anadlu byddan nhw`n rhoi carden yn eu ceg. Bydd pobl felly yn talu ar sail angen. And I truly believe this to be fundamentally right`*.



DET PLC.

# Pan o`dd yr heddlu yn curo y glowyr.....



Roedd Streic y Glowyr 1984-1985 yn fwy na streic gyffredin am hawliau, cyflogau ac amodau gwaith. Roedd yn fwy hyd yn oed na streic am ddyfodol y diwydiant glo. Roedd yn frwydr ddosbarth: yn frwydr ideolegol rhwng Llywodraeth Thatcher ar yr un llaw, ac Undebau Sosialaidd ar y llaw arall. Roedd yn rhan o athroniaeth Mrs Thatcher i ddilyn polisiau arianolaidd, ac fel mae`r *guru* economegydd *New Right* Milton Friedman wedi dweud lawer gwaith, **does dim lle i Undebau Llafur mewn cymdeithas gyfalafol** ble mae`r farchnad rydd yn rheoli. Credai Thatcher bod yn rhaid cael gwared ar Undebaeth: na , nid cael gwared arno, ond ei chwalu. Mewn cymdeithas heb undebau llafur gall y farchnad rydd reoli.


Yn anffodus i bobl Cymru a Phrydain, yn enwedig y rheiny oedd yn gweithio yn y diwydiant glo dewisodd Thatcher y glowyr fel man cychwyn ar gyfer chwalu undebaeth. Yn anffodus i ni hefyd **doedd pobl, cymuned, gwerthoedd a chymdeithas ddim yn bwysig i Thatcher**.

Mae`n amlwg bod gan Thatcher gynllun. Pan oedd y Blaid Geidwadol yn dal yn Wrthblaid cyhoeddodd yr Aelod Seneddol Ceidwadol Nicholas Ridley adroddiad oedd yn dweud bod angen rhyfel yn erbyn yr undebau. Dywedodd y dylai`r Toriaid ddewis ble a phryd roedd y frwydr i ddigwydd, ac y dylen nhw recriwtio pobl i dorri`r streic ymlaen llaw. Dywedodd hefyd, os oedd y cynllun i lwyddo bod angen heddlu fyddai`n barod i`w helpu.




# COAL NOT DOLE

Pan gafodd ei hethol yn 1979 aeth Thatcher ati`n syth i baratoi ar gyfer gwrthdaro. Penododd William Whitelaw yn Weinidog Cartref a dweud wrtho am baratoi am wrthdaro sifil. I sicrhau ei bod yn cael cefnogaeth yr heddlu rhoddodd godiad cyflog o 18% iddyn nhw yn 1981 - **roedd cam 1 o`r cynllun wedi ei gyflawni: roedd Thatcher wedi prynu`r heddlu**. Wedyn penododd MacGregor i fod yn gadeirydd y Bwrdd Glo. *Hatchet Man* oedd MacGregor: dyn oedd wedi torri staff Cwmni Dur Prydain o 166,000 yn 1980 i 85,000 yn 1983. Dyma`r dyn oedd wedi gwneud enw i`w hun yn America fel person oedd yn casau undebau: dyma`r dyn wnaeth Thatcher benodi i ladd y diwydiant glo ac undebau`r glowyr.



Gyda buddugoliaeth *landslide* Thatcher yn 1983 aeth ati o ddifri` i weithredu ei chynllun. Wrth benodi Peter Walker yn Weinidog dywedodd wrtho *`Peter, I want you to go to Energy. We are going to have a Miners` Strike`*. Cwrddodd Peter Walker gydag arweinydd y glowyr - Arthur Scargill. Dywedodd Scargill yn ddiweddarach *`The tea was nice, but the conversation was horrible`*. Arwr Scargill oedd AJ Cook, dyn oedd wedi arwain Streic y Glowyr yn 1926: ac roedd Scargill yn gwybod digon am hanes 1926 i wybod na fyddai`n cael chwarae teg gan Lywodraeth Geidwadol.

Aeth MacGregor ati`n syth i chwilio am wrthdaro, ac erbyn diwedd 1983 roedd popeth yn dangos fod y Llywodraeth eisiau *showdown* gyda`r glowyr. Yn Ionawr 1984 diswyddodd y Bwrdd Glo 19,000 o weithwyr mewn 1 diwrnod. Aeth MacGregor ati i gyflwyno mwy o doriadau ar draws Prydain gan ddatgan bod 115 allan o 179 o byllau glo yn `aneconomaidd`. Ar ddechrau Mawrth 1984 cafwyd bygythiad i gau pwll glo Cortonwood yn Swydd Efrog. Galwodd Emlyn Williams, arweinydd glowyr De Cymru ar Bwyllgor Gwaith Undeb y Glowyr i gynnal streic dan Rheol 41: pleidleisiodd y Pwyllgor Gwaith o blaid hynny o 21 pleidlais i 3. **Roedd Streic y Glowyr wedi dechrau**.




## When Miners Organise

Nid yw pobl Prydain erioed wedi cael gwybod am fanylion gwaethaf y frwydr waedlyd rhwng yr heddlu a`r glowyr yn haf 1984. Milwyr wedi eu gwisgo fel plismyn yn ymosod ar bicedwyr. Yr heddlu yn defnyddio ceffylau a chwn i ymosod ar streicwyr. Pobl oedd yn helpu pobl eraill oedd wedi cael eu hanafu yn cael eu curo gan heddlu oedd yn gwisgo dillad terfysg. Y wasg i gyd yn dod allan i gefnogi`r llywodraeth a`r heddlu. Enw da Scargill yn cael ei dynnu drwy`r baw gan bapurau newydd tabloid a `rhyddfrydol` Lloegr. Ond mae tystiolaeth lafar glowyr yn dweud y cyfan.

Y frwydr fwyaf yn Streic y Glowyr oedd y frwydr am bwll glo Orgreave yn Swydd Efrog. Mae geiriau`r glowyr aeth yno o dde Cymru i bicedu yn dweud y cyfan. Brwydr ddosbarth oedd hon - rhwng y llywodraeth a`r undebau - rhwng Cyfalafiaeth a Sosialaeth. DYMA`R DYSTIOLAETH .....

**PARATOI** - Roedd yr heddlu yn arfer atal glowyr rhag cyrraedd ble roedden nhw eisiau picedu. Ym mis Mai 1984 gadawodd yr heddlu i`r glowyr gyrraedd Orgreave..... OND roedden nhw`n barod amdanyn nhw!

*`Doedd dim problem cyrraedd Orgreave. Roedd fel petaen nhw eisiau ni yno i gael ymladd. Wnaeth un plismon ddangos i fi ble i barcio`r fan!* (Glowr o`r Maerdy).

*`Does dim dwywaith amdani. Roedd yn fwriad ganddyn nhw i roi cosfa iawn i ni`* (Glowr o Oakdale).

**YR HEDDLU** - roedd yr heddlu yno yn eu miloedd, wedi eu gwisgo mewn dillad terfysg, ar gefn ceffylau, a gyda chwn oedd yn ymosod ar bicedwyr. Dywedodd un heddwas wrth lowr o`r Maerdy...

*`Does gyda chi ddim ffycin siawns bois. Ry`n ni wedi bod yn paratoi am hwn am bedair mlynedd, ac wedi bod yn barod amdanoch chi ers dwy flynedd`* (Glowr o`r Maerdy).

*`Gwelais un plismon ar gefn ceffyl yn cwrso glowyr ac yn gweiddi `come on you bastards`. Roedd yn edrych fel petai mewn ffilm Western`* (Glowr o`r Garw).

*`Fe welais i`r cwn yn cael eu harwain gan yr heddlu - roedden nhw`n cnoi pawb a phopeth yn eu golwg, doedd dim ots beth oeddech chi`n gwneud. Roedd yr heddlu`n bwrw`r cachu mas o bawb`* (Glowr o`r Betws).

**Y WASG** - Cadwodd y wasg `ffyddlon` ar ochr y llywodraeth a`r heddlu. Roedd newyddiadurwyr yn Orgreave oedd wedi gweld y cyfan. Ddywedodd y newyddiadurwyr gwael ddim byd am y diwrnod. Dywedodd y rhai gwaethaf gelwydd ....

*`Mae`r wasg Geidwadol wedi gwneud ymdrech anferth i ladd cymeriadau pobl barchus o`r siort orau sydd yn parchu cyfraith, tra ar yr un pryd yn troi`r heddlu mewn i ryw fath o saint. Mae eu hymroddiad i ennill calonnau a meddyliau pobl ar dir canol Prydain wedi bod yn aruthrol. Mae Orgreave yn sefyll fel esiampl berffaith o sut mae`r wasg yn adrodd pan fod anghydfod diwydiannol. Yr argraff sy`n cael ei roi yw bod cannoedd o lowyr barbaraidd, yn cael eu harwain gan vanguard Cymreig hanner call, wedi ymosod ar yr heddlu`* (Phil Thomas o`r Ymgyrch Gymreig Dros Hawliau Sifil a Gwleidyddol).

**Y GLOWYR** - Doedd y glowyr ddim wedi mynd i Orgreave i chwilo am frwydr gyda`r heddlu....

*`Yn Orgreave roedd y glowyr wedi eu gwisgo mewn crysau T a daps. Os fydden ni`n mynd yno i achosi trwbwl fe fydden ni wedi gwisgo esgidiau mawr* (Glowr o`r Maerdy)


*`Fe weles i un bachan o Swydd Efrog yn gorwedd ar lawr gyda`r gwaed yn pistyllu o`i goes. Dywedodd fod y bastards lawr fanna wedi gadael y cwn yn rhydd arno, a`u gadael i`w gwrso ar draws cae.`* (Glowr o`r Maerdy)

Daeth Streic y Glowyr i ben bron flwyddyn yn union ar ôl iddo ddechrau. Dychwelodd y rhan fwyaf o`r glowyr i`w gwaith gydag urddas - gorymdeithio nôl, nid dychwelyd un wrth un. Gorymdeithiodd glowyr Cortonswood, ble ddechreuodd y Streic yn ôl i`w gwaith dan faner *UNITED WE STAND, DIVIDED WE FALL*. Roedd pob glowr wedi gweld aberth a dioddefaint yn ystod y flwyddyn honno. A beth am y gweddill ohonom ni?

*THE SUMMER THATCHER LAUNCHED HER PRIVATE RAM-RAID, WHAT DID WE DO? WE SAT AND WATCHED IT .....COMRADE!*

# STWR AR Y DWR

Cafwyd cyhoeddiad syfrdanol wrth yr Ysgrifennydd Cymreig Ron Davies heddiw pan ddywedodd ei fod wedi datrys problem lleoliad y Cynulliad Cymreig. Ers misoedd bellach, mae pawb o Abertawe i Abu Dabi wedi hawlio mai nhw ddylai ei gael. Ateb Ron Davies yw creu cynulliad symudol ar fwrdd y *Royal Yacht Britannia*. Dywedodd Ron .... *`Ry`n ni`n quids in. Mae`r Albanwyr wedi gwario gormod ar eu Senedd nhw, ac felly ry`n ni`n gorfod arbed arian ar ein un ni`.*








Ron Davies ddoe.

Dim ond i lefydd wnaeth bleidleisio IE fydd y Cynulliad Morwrol yn mynd. Bydd yn osgoi Caerdydd yn llwyr ac yn hwylio o Borthcawl ar hyd arfordir y De i Marina Abertawe. Ymlaen wedyn heibio i Sir Benfro i Marina Aberystwyth, i fyny`r Dyfi i Fachynlleth at Senedd-dy Owain Glyndwr, ymlaen i Borthmadog a Bangor, heibio Sir Fôn i Abergele. Wedyn bydd yn troi nôl.

Dywedodd Prys Edwards, Cadeirydd Marina Aberystwyth... *`Top ho! Anchors away! Gall aelodau`r Cynulliad rentu fflat yn Marina Aberystwyth am bris afresymol. Yn ffodus maen nhw`n hollol wag ar hyn o bryd`.*

Bydd aelodau`r Cynulliad hefyd yn gorfod cyfrannu at hwylio`r cwch, a bydd pob un o`r 70 ohonyn nhw yn derbyn teitl morwrol. Dywedodd Rear Admiral Dafydd Wigley.... *`Hwre! mae hwn yn syniad gwych. Mae Cymru wedi cyfrannu cymaint at fywyd ar y môr. Ry`n ni`n dilyn yn nhraddodiad Madog, Barti Ddu, Harri Morgan, a`r diweddar Syr Geraint Evans. Rwy`n edrych ymlaen yn fawr iawn at y nosweithiau dan y mast yn canu ambell i shanti ac yn yfed grog. Dwi ddim yn edrych ymlaen serch hynny at fy nhro i yn y barel!`*



Rear Admiral Dafydd Wigley

`Rwy`n edrych ymlaen.....

Bydd y Cwchulliad yn gweithio fel hyn ....

* y capten fydd Uncle Albert
* bydd yn cael ei agor yn flynyddol gan y Frenhines a`i gwr, a bydd *Black Rod* yn syrffio y tu ôl iddyn nhw
* bydd tripiau i bothladdoedd tramor yn Jamaica Môr y Canoldir a Chaergybi pan fod trafodaeth hir
* ni fydd cabaret yn cael ei gynnig gan Huw Ceredig a Margaret Williams
* bydd cerflun o`r Dywysoges Diana yn *figurehead* i`r cwch, er mwyn i ni gyd gofio amdani



Ubershiterbahhnfuhrer Rod Richards

U-Boats yn barod.

Parot y cwch fydd yr Arglwydd Dafydd Elis Thomas. Dywedodd ... *`Pieces of eight! Pieces of eight! Mae hwn yn gynllun gwych i hybu`r iaith Gymraeg led led y byd. Mae hwn yn gynllun gwych i hybu`r iaith Gymraeg led led y byd.`*

Eisioes mae bygythiad wedi bod i`r cynllun wrth **Ubershiterbahhnfuhrer Rod Richards**. Dywedodd o`i byncer yng Nghlwyd .... *`Gotten Himmel! Rwyf wedi lawnsio dau U-boat yn barod ac y bwriadu suddo`r schwein hund wrth iddyn nhw basio culfor Sir Fôn ..... ac wedyn fi fydd y Fuhrer a byddaf yn rheoli Cymru. Schnell! Schnell! Hinder Hoch! Hinder Hoch! Raus! Raus!`*

Er hynny mae Red Admiral Ron Davies yn ffyddiog bod ei gynllun yn mynd i lwyddo... *`Mae gen i dair llong, yn edrych yn union yr un peth, ond llongau rhyfel yw dwy ohonyn nhw...`.*

I ddechrau bydd cynllun peilot yn cael ei lawnsio gan Gyngor Sir Ceredigion sy`n bwriadu cwrdd mewn cwrwglau ar yr Afon Teifi.